

Ein cyflawniadau

Mae mwy nag 11,000 o bobl ifanc yn gwella eu sgiliau digidol drwy fwy na 700 o glybiau codio. Dros y tair blynedd diwethaf mae nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan wedi cynyddu 75 y cant.

Rhwng 2016 a 2019, mae nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd wedi ennill o leiaf un cymhwyster TGAU mewn gwyddoniaeth wedi cynyddu 60 y cant. Mae'r nifer y dysgwyr sy'n cyflawni o leiaf un radd C neu'n uwch mewn TGAU gwyddoniaeth wedi cynyddu dros 30 y cant.



Mae ysgolion â'r dosbarthiadau mwyaf a wnaeth elwa ar y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod wedi lleihau maint cyfartalog eu dosbarthiadau babanod i 23. Mae mwy na 6,000 o blant wedi elwa'n uniongyrchol ar hyn, a chyflogwyd 165 o aelodau ychwanegol o staff.



Rydym wedi datblygu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ac rydym yn ei gyflwyno, gan fuddsoddi £31 miliwn yn natblygiad athrawon, sef y ffigur mwyaf erioed. Rydym hefyd wedi cyflwyno fframwaith cyflog ac amodau 'Gwnaed yng Nghymru' yn llwyddiannus, gan godi'r cyflog cychwynnol yn sylweddol.

O'r holl ddysgwyr Safon Uwch yng Nghymru yn 2019, mae 27 y cant wedi ennill graddau A*-A, sef y lefel uchaf yn y DU. Mae hyn yn gynnydd o 23 y cant ers 2016 pan oeddem gryn dipyn y tu ôl i Loegr a Gogledd Iwerddon gan arwain at gynllun gwella pwrpasol gan y Gweinidog Addysg.

Mae 86 y cant o ddysgwyr Blwyddyn 9 yn cyrraedd y lefel asesu ddisgwyliedig o leiaf mewn pynciau craidd. Roedd yn 63 y cant ar ddechrau'r degawd diwethaf. Mae'r bwlch cyrhaeddiad cyffredinol ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi lleihau 4 y cant yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Rydym wedi gwella cyfran y dysgwyr sy'n perfformio orau yn PISA, ac wedi cyflawni ein sgoriau gorau erioed mewn darllen a mathemateg, gan fod ym mhrif ffrwd yr OECD ar gyfer pob maes am y tro cyntaf. Yn y canlyniadau PISA diwethaf, Cymru oedd yr unig wlad yn y DU i wella yn y tri maes.

Mae mwy na 90,000 o ddysgwyr, mewn 176 o leoliadau, yn cael budd o amgylcheddau dysgu newydd a gwell ers 2016 o ganlyniad i'n Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Yng Nghymru, mae gan 100 y cant o ysgolion fand eang cyflym iawn erbyn hyn. Dim ond 37 y cant oedd y ffigur hwn yn 2016.



Roedd 950 o gyfranogwyr ar raglenni arweinyddiaeth a gefnogir gan Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yn ystod 2019/20.

Rydym wedi diwygio addysg gychwynnol i athrawon ac mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu 50 y cant, ac rydym wedi gweld cynnydd cyffredinol yn nifer yr athrawon dan hyfforddiant.

Cefnogwyd mwy na 10,000 o ddysgwyr drwy ein dwy Raglen Seren sydd wrth wraidd Strategaeth Mwy Galluog a Thalentog gyntaf erioed Cymru. Mae mwy nag erioed o'r blaen o fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig ac anhraddodiadol bellach yn mynd ymlaen i addysg uwch.

Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth ADY yn barod ar gyfer y Cod a'r rheoliadau ADY cyn i'r system ADY newydd ddechrau ym mis Medi 2021.



Mae dros 400 o ysgolion a mwy na 40,000 o ddysgwyr yn cael budd o'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig.



Rydym wedi darparu canllawiau ar Gwricwlwm i Gymru, gan gyflwyno deddfwriaeth newydd i ymwreiddio pedwar diben y cwricwlwm a sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar safonau llythrennedd a rhifedd uwch, a bod ein pobl ifanc yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog.